



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Ionawr 2014
Rhifyn 203

Oedfaon y Sul

5 Ionawr - Bore: **Gweinidog.**
Hwyr (4pm): **Uno yn Salem.**

12 Ionawr - Bore: **Mr Richard Parry Jones**
Hwyr (5pm): **Y Parchg Trefor Jones**
Bydd bocs Banc Bwyd yn y cyntedd.

19 Ionawr - Bore: **Uno yn Salem ar gyfer Oedfa Undebol y Cyngor Eglwysi**
Hwyr (5pm): **Gweinidog**
Bydd bocs Banc Bwyd yn y cyntedd

26 Ionawr - Bore a Hwyr: **Y Parchg Pryderi Llwyd Jones**

2 Chwefror - Bore: **Gweinidog. Gweinyddir y Cymun**
Bydd Bwrdd Gwerthu Masnach Deg yn y cyntedd
Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**



**Mae lluniau o weithgareddau'r Nadolig ar dudalen
Eglwys Seilo ar www.henaduriaetharfon.org**

Digwyddiadau

Nos Fercher 8 Ionawr (7pm) - **Cyfarfod Gweddi** dechrau blwyddyn yn Feed my Lambs

Nos Lun 13 Ionawr (7pm): Cymdeithas Chwiorydd Seilo
Oedfa Dechrau Blwyddyn yn Seilo
Pregethir gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes

Nos Lun 20 Ionawr (7.30pm) **Cymdeithas Lenyddol Seilo**
Sgwrs ar J. Glyn Davies gan Richard Morris Jones (Moi)

Bore Llun - Fore Mercher, 20 -22 Ionawr - **Cyfarfodydd Gweddi am Undeb Cristnogol**

- Bore Llun (10.30am) Eglwys y Santes Fair
- Bore Mawrth (11am) Salem
- Bore Mercher (10.30am) Seilo (Ni chynhelir y Seiat)

Taro Mewn - bob bore Mawrth yn Salem (10 -11am)

Seiat - bob bore Mercher (10am) Bydd y Seiat yn ailgychwyn bore Mercher, 14 Ionawr
Y Gell Weddi - bob dydd Iau (10.30am)

Am Eiliad

Ymhlith y saith eglwys yr anfonodd Ioan lythyrau atynt yn Llyfr y Datguddiad, mae Eglwys Pergamus, ac mae'n ei chanmol am y pethau gorau sydd ynddi: "...yr wyt yn glynu wrth f'enw, ac ni wedaist dy ffydd ynof...".(Dat. 2:13). Ond meddai hefyd: "Ond y mae gennyf ychydig bethau yn dy erbyn..." (Dat.2:14) Ac fe â ymlaen i nodi rhai o'r pethau hynny. Ac yn anffodus dyna ddarlun o'r eglwys, yn gyffredinol, ar hyd y canrifoedd, rhyw gymysgfa o'r gwael a'r gorau.

Anaml iawn y byddaf yn mynd i'r 'pictiwr' ond cefais wahoddiad cyn y Nadolig i fynd gyda ffrind i weld y ffilm '**Philomena**', ffilm sydd wedi ei sylfaenu ar y llyfr 'The Lost Child of Philomena Lee', gan Martin Sixsmith. Steve Coogan sy'n portreadu'r newyddiadurwr a'r awdur Martin Sixsmith a Judi Dench sy'n portreadu Philomena. Dau actor ymhlith y goreuon. Stori wir, hynod o drist yw hi, wedi ei lleoli yn yr Iwerddon ym mhundegau'r ganrif ddiwethaf. Gwraig ganol oed yw Philomena yn y ffilm sy'n penderfynu, gyda chymorth Steve Coogan, mynd i chwilio am ei mab a gafodd ei fabwysiadu gan gwpwl o'r Unol Daliaethau pan oedd yn dair blwydd oed. Yn ferch ifanc, beichiogodd Philomena allan o briodas, ac mewn gwarth fe'i hanfonwyd i leiandy 'Chwiorydd Magdalen' yn Roscrea, dros gyfnod ei beichiogrwydd. Pan anwyd ei mab 'Anthony' cafodd Philomena ei gadw am dair blynedd, a hynny dan amodau caeth y lleiandy, hyd nes trefnwyd iddo fynd i'r America yng nghwmni ei rieni newydd. A dyna'r olaf y gwelodd ei fam ef. Mae'n stori ddirdynol, ac

mae'n anodd credu bod Cristnogion wedi medru ymddwyn mor annynol o greulon tuag at ferch ifanc ddiymgeledd.

Wedi dweud hynny, mae'r Eglwys hefyd wedi bod yn gyfrifol am newid y byd er gwell a hynny mewn sawl maes. Gellir meddwl am wroniaid megis William Wilberforce, Martin Luther King a'r Fam Teresa, a'r modd y dylanwadodd yr Eglwys ar fyd addysg a meddyginiaeth ar hyd y canrifoedd. Gellir meddwl am waith clodwiw Byddin yr Iachawdwriaeth a Chymorth Cristnogol i enwi dim ond rhai o blith degau a mwy o fudiadau Cristnogol sy'n gweithio i gynorthwyo pobl dan amgylchiadau dyrys iawn.

Onid yw dechrau blwyddyn yn gyfle i ni fel Cristnogion edrych o'r newydd arnom ein hunain ac efallai aildarganfod ein rôl fel 'Corff Crist' yn y byd. Oherwydd dyna yw'r eglwys, cynrychiolwyr Iesu Grist ym myd Duw. Dyna faint y cyfrifoldeb sydd wedi ei osod arnom fel plant Duw. Mae'r eglwys yn bod er mwyn y byd y mae'n byw ynddo. Yn sicr dylai'r eglwys fod yn rym er gwell yn y byd, a'i daioni yn destun edmygedd gan bawb o'i chwmpas. Elfed biau'r weddi hon:

Glanha dy Eglwys, Iesu mawr,
ei grym yw bod yn lân;
sancteiddia'i gweddi yn ei gwaith
a phura hi'n y tân. (CFf 602)

Gwenda Richards

Coffâd

R. Emyr Price Jones, Y Gilfach, Parc Muriau

Ganed Emyr Jones ym Mlaengarw, Sir Forgannwg, yr hynaf o dri o blant. Bu'r i'r De le cynnes yn ei galon ar hyd y blynyddoedd. Yn ddeg oed symudodd

y teulu i Sir Fôn, a byw yn y Wigoedd, Pentraeth. Er mai cefndir amaethyddol oedd ganddo, nid oedd yn ffermwr wrth reddf, a phe bai amgylchiadau wedi caniatáu byddai wedi mwynhau gyrfa academiaidd. Fel ei dad o'i flaen, roedd ganddo ddiddordeb ym myd y ddrama, a bu galw cyson amdano i gynhyrchu dramâu ym Môn a thu draw. Fel ei dad hefyd, cafodd ei godi'n flaenor yng nghapel Penygarnedd. Bu ef a'i briod, Eirian, yn byw ym Mhlas Tanybryn, Dyffryn Conwy, cyn symud i'r Gilfach. Cydymdeimlwn â'i chwaer Menna, ei nai Iolo a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â **Miss Elisabeth Davies**, Fflat 1, Glan y Môr, sydd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar.

Gwaeledd

Anfonwn ein dymuniadau da at bawb a fu'n wael yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cafodd **Mrs Margaret Bassett**, 50 Bron y Garth, driniaeth yn yr ysbyty yn Lerpwl a threuliodd **Mrs Catherine Jones**, Gwendraeth, Llys yr Orsedd, y Nadolig yn Ysbyty Gwynedd. Da yw deall bod y ddwy adref ac yn gwella. Bu **Mr Emyr Wyn Jones**, Cartref Gwynfa, **Mr Hywel Jones**, Porth y Wawr, Llys Gwyn, **Mr Eric Roberts**, 22 Cae Mur a **Mr Geraint Jones**, Isgraig, Lôn Ddewi, yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, ond y maent bellach wedi gadael yr ysbyty, ac yn gwella. Mae **Mr Ken Francis**, 16 Bryn Rhos a **Mr Meirion Hughes**, 34 Stryd Garnon, yn parhau yn Ysbyty Gwynedd, ac anfonwn ein cofion cynhesaf atynt. Mae **Dr Glenys Trenhaile** wedi gadael Ysbyty

Gwynedd ac mae hi ar hyn o bryd yng nghartref Cerrig yr Afon, a **Mrs Megan Williams** wedi gadael ysbyty Eryri ac yn treulio cyfnod yng nghartref Gwynfa.

Dathlu Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i **Mrs Kitty Roberts** ar dathlu ei phenblwydd yn 104 mlwydd oed ar yr 20fed o Ragfyr. Mae hi mor chwim ei meddwl ag erioed a bu'n hyfryd ei gweld yn mwynhau diwrnod ei phenblwydd yng nghwmni teulu a ffrindiau. Gellir gweld ei llun yng nghwmni ei merch yng nghyfraith, y Parchedig Lona Roberts, ar wefan Henaduriaeth Arfon.

Diolch

Dymuna Mair ac Alwyn, Gwynle, Ffordd Bethel, ddiolch o galon am yr holl gardiau, galwadau ffôn a charedigrwydd cyfeillion tra bu Mair yn yr ysbyty ac ar ôl iddi ddod adref. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr. Diolch i bawb.

Blodau'r Capel

Dyma'r chwiorydd fydd yn gyfrifol am flodau yn y capel yn ystod mis Ionawr: **Mrs Glenys Trainor** (4); **Mrs Marian Parry Jones** (12); **Miss Lucille Hughes** (18); **Mrs Ceri Williams** (19); **Mrs Margaret W Roberts** (2 Chwefror)

Eglwys Noddfa

Pleidlais Eich Cymuned. Eich Dewis
Daeth y llythyr hwn i law oddi wrth Llinos Mai Morris, Gweithiwr Plant ac Ieuencid Eglwys Noddfa:

"Annwyl Gyfeillion,

Mae Cynllun Chwarae Eglwys Noddfa wedi cael cadarnhad fod ein cais wedi

ei ddethol gan banel lleol i fynd ymlaen i'r bleidlais gyhoeddus ar gyfer arian grant 'Ein Cymuned, Eich Dewis'. Oes modd i chi ein helpu drwy anfon yr e-bost hwn ymlaen i'ch cysylltiadau os gwelwch yn dda? Hoffwn ofyn a fyddai modd iddynt bleidleisio ar y linc isod, dewis Gwynedd fel Sir a Chynllun Chwarae Eglwys Noddfa fel prosiect.

Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn yr ymgeiswyr terfynol a'r broses bleidleisio ar:

http://www.northwales.police.uk/contact/your_community_voting.aspx?lang=cy-gb

Mae angen pleidleisio cyn 31 Ionawr 2014. Diolch o galon am eich cefnogaeth.

Llinos Mai Morris (Gweithiwr Plant ac Ieuenctid Eglwys Noddfa)"

Dymunwn yn dda i Noddfa ar y bleidlais.

Cymdeithas y Chwiorydd Rhagfyr 9

Cawsom noson arbennig iawn â naws Nadoligaidd iddi yng nghwmni Gwyn ac Alwena Lewis. Estynnwyd croeso cynnes iddynt gan lywydd y noson, Sioned Clwyd Jones. Cawsom ein harwain i ardal Llanfyllin yn Sir Drefaldwyn lle mae'r arfer o ganu'r Plygain mewn bri a chafwyd hanes cryno'r traddodiad gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar y nos Sul cyntaf yn Rhagfyr, a'r arfer o ganu, cymdeithasu a swpera yn parhau tan yr

ail Sul yn Ionawr. Byddai'r cyfarfodydd yn rhai byrffyr. Y gynulleidfa fyddai'n canu'r garol gyntaf, yna ar ôl cyhoeddi'r Plygain yn agored, byddai'r partion yn canu carolau gwahanol a'r cyfarfod weithiau yn para am ddwy awr. Ar derfyn y gwasanaeth byddai'r dynion yn cydganu Carol y Swper. Cynhelir tua phymtheg Plygain mewn un tymor, y cyntaf yn Llanfyllin a'r olaf bob amser ar yr ail Sul yn Ionawr yn Llanfihangel yng Ngwynfa. Ar un adeg cynhaliwyd plygeiniau yn sir Gaernarfon am dri o'r gloch y bore. Yn ystod y noson clywsom leisiau parti enwog Fronheulog yn canu 'Ar gyfer heddiw'r bore' a chafodd y gynulleidfa gyfle i ganu ac hefyd clywed datganiad gan Mr a Mrs Emrys Jones, y ddau wedi ymwneud â chanu Plygain ers saithdeg mlynedd. Diolchodd y Gweinidog i'r teulu am noson wych ac i aelodau'r pwyllgor am baned a mins pei.

Marian Parry Jones

Y Gymdeithas Lenyddol Rhagfyr 2

Cafwyd sgwrs hynod ddifyr gan William Roger Jones am ei ewythr, yr actor byd enwog, Hugh Griffith, oedd yn enedigol o Farianglas. Dechreuodd ei yrfa fel banciwr yn Abersoch, cyn mynd ymlaen i Lundain. Ei ddiddordeb mawr oedd actio felly gadawodd y banc ac ennill ysgoloriaeth i RADA, a dyna gychwyn ar yrfa lewyrchus fel actor. Yn 1959 enillodd yr Oscar am yr actor cefnogol gorau yn un o ffilmiau mawr Hollywood – Ben Hur, y Cymro cyntaf i ennill Oscar. Cafodd pawb gyfle i edrych a chydio'n y tlws hardd ac arbennig hwn. Fe'i enwebwyd hefyd fel yr actor gorau yn y ffilm 'Tom Jones' 1963 ac 'Oliver' 1968.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Dr Huw Roberts a diolchodd i William Roger Jones an noson fythgofiadwy. Yn y cyfarfod nesaf ceir sgwrs gan Richard Morris Jones ar J Glyn Davies, (awdur Fflat Huw Puw)
Gweno Mai Parri

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435
Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865